

Press Release

For immediate release

Interfaith Council for Wales urges caution for worship

Leaders of Wales' faith communities are urging worshippers to reflect particularly carefully on how they gather for services during Christmas and the New Year.

While places of worship can open for services in Level Four of lockdown, members of the Interfaith Council for Wales are calling for caution and for people's safety to be the priority in response to the rapidly changing situation around the transmission of Covid-19.

Since the beginning of the pandemic Wales' faith communities have worked closely together, deepening bonds of friendship. They have remained in regular contact with Welsh Government, seeking always to protect lives and to ensure the safety of the public. That remains the case as Christmas approaches and worshippers from a diversity of faiths reflect on the significance of a major Christian festival.

Kate McColgan, Chair of the Interfaith Council for Wales, said, "Given the rapidly changing circumstances it's vital that we reflect on our own wellbeing as worshippers and the safety of others we may come into contact with."

The Archbishop of Wales, John Davies, said, "The true meaning of Christmas is about putting other people first, showing them love and compassion. It is in this spirit that I urge those holding services and those attending to be thoughtful and considerate and to be sensible, rather than sentimental. The welfare and safety of all must be our priority."

The Reverend Gethin Rhys, of Cytûn: Churches Together in Wales highlighted the importance of conducting risk assessments. He said, "Welsh Government would remind us that the health situation in Wales is currently very serious, and all risk assessments should begin by asking the question: Given the inherent risks involved do I need to engage in this activity at all? Are there safer alternatives such as broadcast?"

Siân Rees, Director of Evangelical Alliance, Wales underlined the importance of adhering to procedures such as social distancing, hand sanitising and refraining from congregational singing. She said, "Gathering for corporate worship is an important component of Christian life, perhaps more so at Christmas. Churches also provide essential support networks for those with spiritual, mental health or practical needs. We fully acknowledge the seriousness of this pandemic and the duty of care churches have to ensure that congregants are kept safe."

Speaking for the Muslim Council of Wales Dr Abdul-Azim Ahmed said, "Places of worship are among the safest places in Wales during the pandemic, we are glad the Welsh Government has recognised this and allowed them to remain open. It's vital worshippers

take special care to attend only when absolutely safe to do so. Careless attendance may harm many others.”

In response, Jane Hutt, Deputy First Minister and Chief Whip said, “I have worked closely with faith leaders and groups throughout the pandemic. Faith plays an essential part in many people’s lives, and I recognise how important communal worship is for faith communities.

“In all of my many meetings with faith leaders across Wales this year, and in all of my interactions with those of faith, I have been impressed by their incredible efforts to keep places of worship safe for communal worship. I am also aware of the important work they have been doing in their own local communities, supporting and reaching out to those in need during this difficult and uncertain time, and exemplifying more than ever the best of who they are.

“I know that the restrictions on communal worship continue to be difficult for many congregations, but that does not mean that those of faith have stepped back - indeed it has been quite the opposite.”

Further details from:

Canon Aled Edwards, Secretary of the Interfaith Council for Wales
Mobile 07751446071

Datganiad i’r Wasg

I’w ryddhau ar unwaith

**Cyngor Rhyng-ffydd Cymru yn annog gofal ynghylch
addoli**

Mae arweinwyr cymunedau ffydd Cymru yn annog addolwyr i ystyried yn arbennig o ofalus y modd y maent yn ymgynnull ar gyfer gwasanaethau dros gyfnod y Nadolig a’r Flwyddyn Newydd.

Er y gall addoldai agor ar gyfer gwasanaethau yn Lefel Pedwar y cyfyngiadau symud, mae aelodau o Gyngor Rhyng-ffydd Cymru yn galw am ofal ac am roi’r flaenoriaeth i ddiogelwch pobl wrth ymateb i’r sefyllfa sy’n newid yn gyflym o ran trosglwyddo COVID-19.

Ers dechrau’r pandemig mae cymunedau ffydd Cymru wedi bod yn cydweithio’n agos, gan ddyfnhau rhwymau cyfeillgarwch. Maent wedi parhau mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth Cymru, gan geisio drwy’r adeg warchod bywydau a sicrhau diogelwch y cyhoedd. Mae hynny’n parhau’n wir wrth i’r Nadolig agosáu ac wrth i addolwyr o amrywiol grefyddau fyfyrion ar arwyddocâd gŵyl Gristnogol o bwys.

Meddai Kate McColgan, Cadeirydd Cyngor Rhyng-ffydd Cymru, "Gyda’r amgylchiadau’n newid yn gyflym, mae’n hanfodol ein bod yn ystyried ein lles ein hunain fel addolwyr a diogelwch pobl eraill y gallwn ddod i gysylltiad â hwy."

Meddai Archesgob Cymru, John Davies, "Gwir ystyr y Nadolig yw rhoi pobl eraill yn gyntaf, gan ddangos cariad a thosturi tuag atynt. Yn yr ysbryd hwnnw rwyf yn annog y rhai sy'n cynnal gwasanaethau a'r rhai sy'n eu mynychu i fod yn feddylgar ac yn ystyriol ac i fod yn gall yn hytrach na dibynnu ar deimladau. Rhaid i les a diogelwch pawb fod yn flaenoriaeth i ni."

Ar ran Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, tynnodd y Parchedig Gethin Rhys sylw at bwysigrwydd cynnal asesiadau risg. Dywedodd, "Mae Llywodraeth Cymru am ein hatgoffa bod y sefyllfa iechyd yng Nghymru yn ddifrifol iawn ar hyn o bryd, a dylai pob asesiad risg ddechrau drwy ofyn y cwestiwn: O ystyried y risgiau sydd ynghlwm â'r gweithgaredd hwn, a oes angen i mi gyflawni'r gweithgaredd o gwbl? A oes dewisiadau amgen mwy diogel, megis darlledu?"

"Pwysleisiodd Siân Rees, Cyfarwyddwr Cynghair Efynglydd Cymru, bwysigrwydd glynu wrth fesurau megis cadw pellter cymdeithasol, diheintio dwylo ac ymatal rhag canu cynulleidfaol. Meddai, "Mae dod ynghyd i gydaddoli'n elfen bwysig o'r bywyd Cristnogol, efallai'n fwy felly adeg y Nadolig. Mae eglwysi hefyd yn darparu rhwydweithiau cymorth hanfodol ar gyfer y rhai sydd ag anghenion ysbrydol, anghenion iechyd meddwl neu anghenion ymarferol. Rydym yn llwyr gydnabod difrifoldeb y pandemig hwn a'r ddyletswydd gofal sydd ar eglwysi i sicrhau y cedwir aelodau eu cynulleidfaedd yn ddiogel."

Meddai'r Dr Abdul-Azim Ahmed, ar ran Cyngor Mwslimiaid Cymru, "Mae addoldai ymhlith y lleoedd mwyaf diogel yng Nghymru yn ystod y pandemig, ac rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hynny ac wedi caniatáu iddynt aros ar agor. Mae'n hanfodol bod addolwyr yn cymryd gofal arbennig i fynychu addoldai dim ond pan mae hi'n gwbl ddiogel i wneud hynny. Gall ymgynnull diofal niweidio llawer o bobl eraill."

Mewn ymateb i ddatganiad y Cyngor Rhyng-ffydd, dywedodd Jane Hutt, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Prif Chwip:

"Rwyf wedi bod yn gweithio'n agos ag arweinwyr ffydd a grwpiau ffydd drwy gydol y pandemig. Mae i ffydd ran hanfodol ym mywydau llawer o bobl, ac rwy'n cydnabod pa mor bwysig yw addoli ar y cyd i gymunedau ffydd.

"Ym mhob un o'm cyfarfodydd niferus ag arweinwyr ffydd ledled Cymru eleni, ac yn fy holl ymwneud â chredinwyr, mae eu hymdrechion rhyfeddol i gadw addoldai'n ddiogel ar gyfer cydaddoli wedi creu argraff arnaf. Rwyf hefyd yn ymwybodol o'r gwaith pwysig maent wedi bod yn ei wneud o fewn eu cymunedau lleol, gan estyn allan i gynorthwyo'r rhai sydd mewn angen yn ystod y cyfnod anodd ac ansicr hwn, gan amlygu yn fwy nag erioed y gorau o'u nodweddion.

"Gwn fod y cyfyngiadau ar gydaddoli'n parhau i fod yn anodd i lawer o gynulleidfaedd, ond nid yw hynny'n golygu bod credinwyr wedi encilio – y gwrthwyneb sy'n wir."

Kate McColgan, Cadeirydd Cyngor Rhyng-ffydd Cymru

Mae manylion pellach ar gael oddi wrth:

Y Canon Aled Edwards, Ysgrifennydd Cyngor Rhyng-ffydd Cymru
Rhif ffôn symudol: 07751 446071